# Ildio Cyflog (Car)

## Yr Effaith ar eich Buddion o dan CPLIL

### Cyflwyniad

O dan unrhyw gynllun Ildio Cyflog (Car), bydd eich Cyflogwr yn caniatáu ichi gael car newydd sbon ar brydles am, er enghraifft, gyfnod o 24 neu 36 mis, drwy wneud taliadau o'ch cyflog, gyda'r cyfle i brynu'r car ar ddiwedd cyfnod y brydles.

Yn unol â'r trefniad hwn, caiff eich cyflog gros misol ei leihau i adlewyrchu'r gost o brydlesu'r car, sy'n golygu y byddwch yn talu llai o dreth incwm ac Yswiriant Gwladol.  Ond os ydych yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), bydd goblygiadau o ran eich pensiwn.  Mae'r daflen ffeithiau hyn, felly, yn sôn am yr effaith i'ch buddion o dan y cynllun pensiwn.

### A fyddaf yn talu llai o gyfraniadau pensiwn?

Pe byddwch yn ymuno â chynllun Ildio Cyflog (Car), caiff y taliad ar gyfer eich car newydd ei dynnu o'ch cyflog gros misol cyn y gwneir unrhyw ddidyniadau eraill, felly bydd eich cyflog trethadwy yn is, sy'n golygu y byddwch yn talu llai o gyfraniadau pensiwn.

Gallai prif gyfradd eich cyfraniad i'r cynllun newid hefyd, gan y bydd y gyfradd sy'n daladwy yn cael ei hailasesu yn erbyn eich cyflog pensiynadwy blynyddol **LLAI** y swm a ildir.  Mae trefniad bandio'r cyfraniadau i'w weld isod:

| Eich Gwir-dâl Pensiynadwy | Cyfradd Cyfraniad ar gyfer y Brif Adran | Cyfradd Cyfraniad ar gyfer yr Adran 50/50 |
|---|---|---|
| Hyd at £17,600 | 5.50% | 2.75% |
| £17,601 i £27,600 | 5.80% | 2.90% |
| £27,601 i £44,900 | 6.50% | 3.25% |
| £44,901 i £56,800 | 5.80% | 3.40% |
| £56,801 i £79,700 | 8.50% | 4.25% |
| £79,701 i £112,900 | 9.90% | 4.95% |
| £112,901 i £133,100 | 10.50% | 5.25% |
| £133,101 i £199,700 | 11.40% | 5.70% |
| Yn fwy na £199,701 | 12.50% | 6.25% |

## Beth am unrhyw gyfraniadau ychwanegol?

Bydd unrhyw gyfraniadau pensiwn ychwanegol a wnewch mewn perthynas â Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY), Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY), Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRhY) neu tuag at brynu 'blynyddoedd ychwanegol' yn parhau i gael eu tynnu o'ch cyflog misol gros, ar ôl didynnu'r swm a ildir, ond cyn treth incwm. Ond cofiwch, os yw eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ar hyn o bryd wedi'u mynegi fel canran o'ch cyflog pensiynadwy, bydd eich CGY yn llai yn sgil didynnu'r swm a ildir.

## A fyddaf yn adeiladu llai o bensiwn o dan gynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio (CARE)?

Ers 1af Ebrill 2014, mae eich pensiwn o dan gynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio (CARE) yn seiliedig ar y cyflog pensiynadwy a enillwch yn ystod pob blwyddyn y cynllun (1af Ebrill hyd 31ain Mawrth). Felly, am gyfnod cytundeb ildio cyflog (car), bydd eich pensiwn yn adeiladu llai gan **NA** fydd eich cyflog pensiynadwy yn cynnwys y swm a ildir.

Er enghraifft:

| | |
|---|---|
| Cyflog Blynyddol: | £18,000 |
| **LLAI** y Swm a Ildir ar gyfer prydlesu car: | £  3,000 |
| Cyflog pensiynadwy a ddefnyddir i gyfrifo pensiwn: | **£15,000** |

Cynnydd pensiwn ar gyfer Blwyddyn y Cynllun:
£15,000 x 1/49fed = **£306.12**

I gymharu, cynnydd pensiwn llawn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol NAD yw'n cyfrannu at gynllun Ildio Cyflog (Car) fyddai: £18,000 x 1/49fed = **£367.35** (sy'n golygu colled pensiwn blynyddol o **£61.23**).

## A allaf 'wneud yn iawn' am y golled hon i fy mhensiwn blynyddol?

Mae gennych yr opsiwn i dalu CPY i brynu swm o bensiwn blynyddol ychwanegol, a fyddai wedyn yn gwneud yn iawn am y golled i'ch pensiwn blynyddol. Ar 1 Ebrill 2014, rhoddwyd cap o £6,500 y flwyddyn er mwyn cyfyngu faint o bensiwn blynyddol y gallwch ei brynu yn y CPLlL. Mae'r cap hwn wedi cynyddu gyda chwyddiant bob blwyddyn ers hynny.

I brynu pensiwn ychwanegol, bydd angen ichi ganfod faint o bensiwn blynyddol yr ydych wedi'i golli yn sgil y cytundeb, a fydd wedyn yn eich galluogi i ddefnyddio'r **Modelwr Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol** ar-lein i gyfrifo cost prynu'r swm o bensiwn blynyddol ychwanegol:

https://www.lgpsmember.org/more/apc/extra.php

Os ydych yn dymuno bwrw ymlaen, rhaid ichi argraffu'r **Ffurflen Gais** o'r Modelwr ar-lein a dychwelyd copi i'r adran Gyflogres / Pensiwn. Bydd gennych yr opsiwn i brynu'r pensiwn blynyddol ychwanegol fel cyfandaliad un tro neu'n fisol dros gyfnod am o leiaf 12 mis. Ond os ydych yn dymuno talu'n fisol, bydd yn rhaid ichi gadarnhau eich bod mewn 'iechyd rhesymol dda'.

## A fydd fy muddion Cyflog Terfynol cyn 1af Ebrill 2014 hefyd yn llai?

Byddant, am y bydd eich buddion cyflog terfynol mewn perthynas â'ch aelodaeth hyd at 31ain Mawrth 2014 yn seiliedig ar ein cyflog pensiynadwy **TYNNU** didyniad y swm a ildir yn y cyfnod cyflog terfynol perthnasol (o dan ddiffiniad 2008 o gyflog pensiynadwy, hynny yw heb oramser anghontractiol).

## A oes unrhyw effaith arall i fy muddion o dan CPLIL?

Oes, sef y byddai'r grant marwolaeth cyfandaliad fyddai'n daladwy petaech yn marw yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy tybiedig ar ôl didynnu'r swm a ildir.

## Ymwadiad

Nid yw Gronfa Bensiwn Dyfed yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/
Gwasanaeth Cyngor Arian:
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/choosing-a-financial-adviser